Ffwrdd Dinerth, Llandrillo-yn-Rhos

Y Diweddaraf am y Prosiect - Tachwedd 2026

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi gwneud rhagor o gynnydd gyda'n cynlluniau i ddatblygu 48 o gartrefi fforddiadwy ar safle hen swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar Ffordd Dinerth.

Rydym bellach wedi penodi contractwr i osod y ffensys diogelwch o amgylch y safle a chael gwared ar asbestos yn ddiogel o'r adeilad presennol. Disgwylir i'r **gwaith hwn ddechrau ar 16 Tachwedd 2026**. **Lle bo modd, bydd oriau gweithio ar y safle rhwng 8am a 4pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener.** Bydd preswylwyr yn cael gwybod ymlaen llaw os disgwylir i waith gael ei wneud y tu allan i'r oriau hyn.

Unwaith y bydd yr asbestos wedi cael ei dynnu, bydd yr adeilad yn cael ei ddymchwel. Rydym yn disgwyl i'r gwaith dymchwel gael ei wneud yng ngwanwyn 2027.
Rydym hefyd wrthi'n penodi contractwr i adeiladu'r cartrefi newydd. Rydym yn disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Mawrth 2027, gyda'r datblygiad yn cael ei gwblhau yn 2029. Byddwn yn darparu amserlenni manylach unwaith y bydd y contractwr wedi'i benodi.

Cymeradwyodd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor y cynlluniau ym mis Mawrth 2026. Mae gwaith yn parhau i gwblhau'r gofynion cynllunio a chyfreithiol sy'n weddill cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau ar y safle.

Tachwedd 2026	**Ffens safle ac asbestos**
Chwefror/Mawrth 2027	**Asbestos wedi'i dynnu**
Gwanwyn 2027	**Adeilad wedi'i ddymchwel**
Gwanwyn 2027	**Adeiladu'n dechrau**
2029	**Wedi'i gwblhau**

Mae'n bosibl y bydd y dyddiadau hyn yn newid wrth i'r prosiect fynd rhagddo.

I gael y newyddion diweddaraf a'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd datblygiad Ffordd Dinerth, sganiwch y cod QR neu ewch i'n gwefan i weld Blog Ffordd Dinerth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y prosiect hwn, cysylltwch â ni: E. **dinerthroad@cartrteficonwy.org | www.cartreficonwy.org**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government